Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Polisi'r Cwricwlwm

(gweler hefyd Anghenion Addysgol Arbennig)

Rhagarweiniad

Cwricwlwm ein hysgol yw'r holl weithgareddau a gynlluniwyd yr ydym yn eu trefnu er mwyn hybu dysgu, twf a datblygiad personol. Mae'n cynnwys nid yn unig gofynion ffurfiol y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond hefyd y gweithgareddau allgyrsiol amrywiol y mae'r ysgol yn eu trefnu i gyfoethogi profiadau'r plant. Mae hefyd yn cynnwys y 'cwricwlwm cudd' - yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu o'r ffordd y cant eu trin a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Ein dymuniad yw i'r plant dyfu'n bobl gadarnhaol a chyfrifol, sy'n gallu gweithio a chydweithio gydag eraill ac ar yr un pryd, datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, er mwyn cyflawni eu gwir botensial. Rydym yn ceisio'r safonau cyrhaeddiad gorau posib i'n holl blant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ehangder y cwricwlwm a ddarperir gennym. Ein nod yw meithrin creadigrwydd yn ein plant, a'u helpu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Uwchlaw popeth, credwn y dylai dysgu fod yn hwyl.

Gwerthoedd

Yn sail i gwricwlwm ein hysgol y mae'r gwerthoedd yr ydym yn eu hystyried yn bwysig yn ein hysgol. Drwy'r cwricwlwm y mae'r ysgol yn cyflawni ei hamcan o addysgu'r plant o ran y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y bydd eu hangen arnynt er mwyn byw bywydau llawn.

Dyma brif werthoedd yr ysgol a'r hyn sy'n sail i'r cwricwlwm:

- Mae gwerth i natur unigryw pob plentyn, rydym yn gwrando ar farn plant unigol ac rydym yn hyrwyddo parch am ddiwylliannau amrywiol.
- Rydym yn rhoi gwerth ar ddatblygiad ysbrydol a moesol pob person, a'u datblygiad deallusol a chorfforol hefyd.
- Rydym yn rhoi gwerth ar bwysigrwydd pob person yn ein cymuned, ac rydym yn trefnu'r cwricwlwm i hyrwyddo cynhwysiad, cydweithrediad a dealltwriaeth ymhlith holl aelodau ein cymuned.
- Rydym yn rhoi gwerth ar hawliau pob unigolyn yn ein cymdeithas. Rydym yn parchu pob plentyn yn ein hysgol am yr hyn ydynt, ac rydym yn eu trin yn deg ac yn onest. Ein hamcan yw galluogi pob unigolyn i fod yn llwyddiannus, ac rydym yn rhoi cyfle cyfartal i'n holl ddisgyblion.
- Rydym yn ymdrechu i ddiwallu anghenion pob un o'n plant, a sicrhau ein bod yn cyflawni'r holl ofynion statudol ynghylch cynhwysiad.
- Rydym yn rhoi gwerth ar ein hamgylchedd, ac rydym yn dymuno addysgu ein disgyblion, drwy ein cwricwlwm, sut i ofalu am ein byd, nid yn unig er ein lles ein hunain, ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nodau

Dyma nodau cwricwlwm ein hysgol:

- galluogi'r holl blant i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu;

- hyrwyddo agwedd gadarnhaol at ddysgu, er mwyn i blant fwynhau dod i'r ysgol, a chaffael sail gadarn ar gyfer dysgu gydol oes;
- addysgu **sgiliau sylfaenol** llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i'r plant;
- galluogi plant i fod yn greadigol ac i ddatblygu eu meddwl eu hunain;
- addysgu plant am y byd sy'n datblygu, gan gynnwys sut mae eu hamgylchedd a'u cymdeithas wedi newid dros amser;
- helpu plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol Prydain;
- gwerthfawrogi a rhoi gwerth ar gyfraniad yr holl grwpiau ethnig yn ein cymdeithas amlddiwylliannol;
- galluogi plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol;
- cyflawni holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol Cytunedig;
- addysgu plant fel bod ganddynt ymwybyddiaeth o'u datblygiad ysbrydol eu hunain, a'r gallu i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg;
- helpu plant i ddeall pwysigrwydd y gwir a thegwch, er mwyn iddynt dyfu gydag ymrwymiad i gyfle cyfartal i bawb;
- galluogi plant i barchu eu hunain a datblygu hunanwerth, a byw a gweithio'n gydweithredol gydag eraill.

Trefnu a chynllunio

Rydym yn cynllunio ein cwricwlwm mewn dau gyfnod. Rydym yn cytuno ar gynllun tymor hir ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae hyn yn nodi'r pynciau sydd i'w dysgu ym mhob tymor, ac i ba grwpiau o blant. Rydym yn adolygu'r cynllun tymor hir hwn bob blwyddyn.

Ein cynlluniau tymor byr yw'r rheiny y mae'n hathrawon yn eu llunio bob pythefnos. Rydym yn defnyddio'r rhain i ddisgrifio'r amcanion dysgu ar gyfer pob sesiwn, a nodi'r adnoddau a'r gweithgareddau y byddwn yn eu defnyddio yn y gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, rydym yn defnyddio dull pynciol rhyng-ddisgyblaeth wrth gynllunio'r cwricwlwm. Rydym yn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus, er mwyn iddo gwmpasu holl agweddau'r Canlyniadau Dymunol a'r nodau dysgu cynnar yn gydlynol ac yn gyflawn, ac mae dilyniant cynlluniedig ym mhob maes yn y cyfnod sylfaen.

Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2, rydym yn addysgu'r pynciau sylfaen ar wahân. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gall plentyn ganolbwyntio mewn un bloc ar bwnc hanes, yna newid i fwy o bwyslais ar ddaearyddiaeth yn y bloc nesaf. Felly, ymhen amser, bydd gan bob plentyn gyfle i brofi'r ystod lawn o bynciau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Y cwricwlwm a chynhwysiad

Cynllunnir y cwricwlwm yn ein hysgol fel bod yr holl blant yn yr ysgol yn gallu cael mynediad iddo. Os credwn fod angen addasu mynediad rhai plant i'r cwricwlwm, er mwyn diwallu eu hanghenion, yna gwnawn hyn yn dilyn ymgynghori â'u rhieni.

Os oes anghenion arbennig gan blant, mae ein hysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i ddiwallu anghenion yr unigolyn, ac rydym yn cydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir yn y Côd Ymarfer AAA. Os bydd plentyn yn arddangos arwyddion bod ganddo anghenion arbennig, bydd ei athro/athrawes yn asesu'r angen hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athrawon yn gallu

darparu'r adnoddau a'r cyfleoedd addysgol i ddiwallu anghenion y plentyn, o fewn trefniadau arferol y dosbarth. Os bydd anghenion y plentyn yn fwy difrifol, byddwn yn ystyried gwneud cais am ddatganiad o anghenion arbennig, a byddwn yn cynnwys yr asiantaethau allanol priodol wrth wneud yr asesiad. Rydym bob amser yn darparu adnoddau a chefnogaeth ychwanegol i blant ag anghenion arbennig.

Mae'r ysgol yn darparu Cynllun Addysg Unigol (CAU) i bob plentyn sydd ar y gofrestr anghenion arbennig. Mae hwn yn disgrifio natur yr angen arbennig, ac yn amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu mynd i'r afael â hynny. Mae'r CAU hefyd yn pennu'r targedau ar gyfer gwelliant, fel y gallwn adolygu a monitro cynnydd pob plentyn yn rheolaidd.

Ein nod yw diwallu anghenion pob grŵp o blant yn ein hysgol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ddiwygiedig a ddaeth i rym ym Medi 2002. Cyflawnir pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r plant hyn dan anfantais sylweddol o'u cymharu â phlant eraill. Addasir y dysgu a'r addysgu yn briodol ar gyfer plant ag anableddau. Er enghraifft, mae'n bosib y rhoddir mwy o amser iddynt i gyflawni rhai gweithgareddau, neu efallai yr addasir y deunyddiau addysgu.

Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r cwricwlwm yr ydym yn ei addysgu yn y dosbarth derbyn yn bodloni'r gofynion a ddisgrifir yn y Canlyniadau Dymunol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a phrofiadau'r plant

Mae ein hysgol yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor bod plant bach yn dysgu drwy chwarae, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r addysgu yn y dosbarth derbyn yn adeiladu ar brofiadau'r plant yn eu dysgu cyn-ysgol. Gwnawn ein gorau glas i ddatblygu partneriaethau cadarnhaol gyda'r meithrinfeydd a'r darparwyr cyn-ysgol amrywiol eraill yn yr ardal.

Bydd yr athrawon yn y dosbarth derbyn yn asesu datblygiad sgiliau pob plentyn bob tymor, ac yn cofnodi hyn ym Mhroffil y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr asesiad hwn yn rhan bwysig o'r cynllunio cwricwlaidd ar gyfer y dyfodol i bob plentyn.

Rydym yn ymwybodol iawn bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon fel ei gilydd ar blant er mwyn datblygu'n dda yn yr ysgol. Rydym yn ymdrechu i adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â rhieni pob plentyn drwy eu hysbysu am yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu, a sut mae pob plentyn yn datblygu.

Sgiliau allweddol

Yn y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig, nodir y sgiliau canlynol fel 'sgiliau allweddol:

- cyfathrebu;
- cymhwyso rhif;
- technoleg gwybodaeth;
- gweithio gydag eraill;
- gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hunan;
- datrys problemau.

Wrth gynllunio'r cwricwlwm, rydym yn pwysleisio'r sgiliau hyn, er mwyn nodi a monitro cynnydd plant ym mhob un o'r meysydd hyn. Bydd athrawon ym mhob maes pwnc yn ceisio cyfrannu at gynnydd plant yn y sgiliau hyn, am ein bod yn credu y dylai pob plentyn ddatblygu'n dda yn y meysydd hyn er mwyn iddynt ddatblygu eu gwir botensial.

Rôl yr arweinydd pwnc

Rôl yr arweinydd pwnc yw:

- darparu arweiniad strategol a chyfeiriad ar gyfer y pwnc;
- cefnogi a chynghori cydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r pwnc;
- monitro cynnydd disgyblion yn y maes pwnc hwnnw;
- darparu rheolaeth effeithlon o ran adnoddau ar gyfer y pwnc.

Mae'r ysgol yn darparu amser digyswllt i arweinwyr pwnc bob tymor, er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rôl pob arweinydd pwnc yw ymgyfarwyddo â'r datblygiadau diweddaraf yn eu pwnc, yn genedlaethol ac yn lleol. Maent yn adolygu'r ffordd yr addysgir y pwnc yn yr ysgol, ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllunio datblygu hwn wedi'i gysylltu â nodau ysgol gyfan. Bydd pob arweinydd pwnc yn adolygu cynlluniau'r cwricwlwm ar gyfer y pwnc, gan sicrhau bod y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gwmpasu'n llwyr, a sicrhau bod dilyniant yn rhan hanfodol o gynlluniau gwaith. Mae'r arweinydd pwnc hefyd yn cadw portffolio o waith plant, gan ei ddefnyddio i ddangos cyflawniadau plant ym mhob cyfnod allweddol, ac fel enghraifft o'r cyrhaeddiad a ddisgwylir.

Monitro ac adolygu

Pwyllgor cwricwlwm ein corff llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae cwricwlwm yr ysgol yn cael ei weithredu.

Mae llywodraethwr penodol wedi'i ddynodi ar gyfer anghenion arbennig, sy'n cydgysylltu â'r SENCO, ac yn monitro'r ffordd yr eir ati i fynd i'r afael ag anghenion arbennig.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefnu'r cwricwlwm o ddydd i ddydd. Mae'r pennaeth yn monitro'r cynlluniau gwersi pythefnos, gan sicrhau bod holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu haddysgu i'r holl ddosbarthiadau, a bod gan yr holl wersi amcanion dysgu priodol.

Mae arweinwyr pwnc yn monitro'r ffordd yr addysgir eu pynciau drwy'r ysgol gyfan. Byddant yn archwilio'r cynllunio tymor hir, ac yn sicrhau bod strategaethau addysgu priodol yn cael eu defnyddio. Mae'r arweinwyr pwnc hefyd yn gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu storio a'u rheoli.

Mae'r polisi hwn yn cael ei fonitro gan y corff llywodraethu a'i adolygu bob tair blynedd, neu cyn hynny yn ôl y galw.